

# Rhagair y Prif Weithredwr

Ym mlwyddyn olaf ein '30au', mae AiF wedi parhau i esblygu, gan aros yn driw i'n gwreiddiau ym Madagascar a gyda'r Crynwyr.

Bob blwyddyn, mae ein Hadroddiad Blynyddol yn gyfle i chi gael gwell syniad o *beth* yr ydym yn ei wneud. I fi, yn Brif Weithredwr AiF, mae hefyd yn gyfle i adael i chi wybod *ble*'r ydym arni fel corff a ble'r ydym yn *mynd*.

Y flwyddyn nesaf, 2026, fydd 40fed pen-blwydd Arian i Fadagascar. Dau beth sydd wedi arwain ein paratoadau at y pen-blwydd, a'r ddau'n rhan greiddiol o AiF ers 1986.

Cawson ein sefydlu gan Barbara Prys-Williams, nid i 'ddatrys argyfyngau Madagascar', megis y trychinebau naturiol ac economaidd oedd yn taro Madagascar ar y pryd, ond am fod mudiadau Malagasi – rhai ohonyn nhw'n bartneriaid i ni heddiw – wedi gofyn a allai hi ddarparu cyllid iddyn nhw wynebu'r heriau o'u blaen.

Dyna sylfaen ein datganiad canolog: Atebion Malagasi i heriau Madagascar. Dyna sy'n ein gwneud yn unigryw. Dydyn ni ddim yn dweud wrth gymunedau Malagasi beth yw eu problemau ac yn eu datrys trostyn nhw; byddwn yn gweithio gyda phobl a mudiadau Malagasi a gwrando arnyn nhw, gan ganiatáu iddyn nhw ddiffino'u heriau a datblygu a gweithredu atebion.

Datblygwyd Arian i Fadagascar gan Barbara a'i gŵr Allan, gyda chefnogaeth Cwrdd Crynwyr Abertawe a gwerthoedd y Crynwyr, gan gynnwys urddas, gonestrwydd, cydymdeimlad a chydgefnogaeth yw ein sylfaen a'n lleufer.

Rydym ni a'n partneriaid Malagasi newydd ailgadarnhau ein ffordd o gydweithio: ar sail perthynas nid safonau masnachol, i rannu grym gyda'n partneraid, esblygu, cyd-ddylunio, ystyried ac addasu gyda nhw, ac i deang, unol weithio'n gymunedol. Trwy wrando ar gymunedau Malagasi, gweithio gyda nhw a'u hymbweru y mae cyflawni atebion Malagasi i heriau Madagascar. Partneriaid ydym ni, yn gweithio'n gydradd.

Eleni hefyd yw'r flwyddyn gyntaf i AiF gael ei arwain yn llwyr gan Falagasiaid: un tîm bydeang, unol yn cael ei arwain ym Madagascar. Rydym ni a'n partneiriadu yn cyfuno ein cryfderau i helpu pobl i'w codi eu hunain o dlodi ac i ddiogelu ac ehangu ecosystem allweddol Madagascar.

Gyda'n partneriaid, dewison ni slogan pen-blwydd: '*Yn hazo Tokana tsy mba ala, yn firaisakina no hery*': Un goeden ni wna goedwig, cryfach ynghyd'.Mae'n fwy na 'dim ond' slogan, neu fotiff ar gyfer un flwyddyn. Dyna fuon ni erioed, a dyna fyddwn ni.




**Lova Rasoalinoro, Prif Weithredwr AiF**


# Cyllid 2023-24

Yn y flwyddyn hyd Fedi 2024, gwariodd Arian i Fadagascar £1,438,521 ar ei Gweithgareddau Elusennol, y mwyaf erioed. Mae hyn yn barhad o dwf y blynyddoedd diwethaf.

Rydym wedi derbyn cefnogaeth sylweddol gan Sefydliadau a Chyrff Elusennol ynghyd â chynnydd mewn rhoddion gan ein criw ymrwymedig o gefnogwyr a rhoddwyr unigol sydd wedi ymateb yn hael i'r angen dyngarol ac amgylcheddol parhaus a chynyddol ar yr Ynys. Gwaetha'r modd, mae'n parhau yn un o wledydd tlota'r blaned ac un o'r rhai mwyaf agored i newid hinsawdd.




Rydym wedi gweithio'n ddygn gyda'n partneriaid Malagasi i ehangu ein gweithgareddau a'n prosiectau ac mae'r treblu yn ein hincwm ers 2021 wedi rhoi hyder i'r Ymddiriedolwyr gynyddu'r tîm Malagasi i gwrdd â heriau newydd cynyddol. Rydym bellach yn gorff sydd wirioneddol yn cael ei arwain gan Falagasiaid gyda'n hymdrechion codi arian yn cael eu rheoli gan anghenion cenedlaethol a lleol ac yn ymateb i'r rheiny.





Diolch i gannoedd o oriau sydd wedi eu rhoi gan wirfoddolwyr ac Ymddiriedolwyr, yn ogystal ag ymroddiad ein staff ym Madagascar a'r Deyrnas Unedig, rydym wedi cadw ein costau llywodraethiant a chefnogaeth yn isel, gyda bron 90% o wariant 2023/24 ar Weithgareddau Elusennol. Cynyddodd ein grantiau i bartneriaid Malagasi eto eleni, o £883K i £1.36M.

Rydym hefyd eisiau cyfnerthu ein staff a'n partneriaid ym Madagascar i godi arian ychwanegol gan gyrff rhyngwladol, cyllid nad yw fel rheol ar gael i Elusennau yn y DU. Dyw'r incwm hwn ddim yn ein Cyfrifon ond mae'n ganlyniad pwysig i fuddsoddiad AiF mewn datblygu rhaglenni, codi arian a chreu gallu, gan ein helpu i gyrraedd ein nod o alluogi pobl Madagascar i arwain eu datblygiad a'u cadwraeth eu hunain.

Mae'r gwario bwriadol hwn ar gynyddu gallu wedi effeithio ein Cronfeydd Anghyfyngedig, gyda gostyngiad i £188,430, ond mae'r swm hwn yn gyson â Pholisi Cronfeydd Wrth Gefn yr Ymddiriedolwyr.

Mae Cyfrifon llawn AiF a rhestr o'r Ymddiriedolwyr a'r Noddwyr ar gael ar wefan AiF a gwefan Comisiwn Elusennau y Deyrnas Unedig.



**Eifion Griffiths, Honorary Treasurer**

# Arian i Fadagascar

# 38fed Adroddiad Blynyddol, 2023-24




## Atebion Malagasi i Heriau Madagascar


Prif Swyddfa: Lot ITP 13 Bis, Antsavatsava. Itaosy, Antananarivo, Madagascar +261 38 35 259 98
contact@moneyformadagascar.org

Prif Swyddfa AiF DU: Halton Mill Cooperative, Mill Lane, Halton, Lancaster, LA2 6ND, UK +44(0) 7956147316
admin@moneyformadagascar.org

AiF Cymru: AiF, Llwyncelyn Isaf, Carregsawdde, Llangadog, SA19 9BY, Wales +441550 777535
info@moneyformadagascar.org

# Plant i'r Dyfodol

Mae Plant i'r Dyfodol (Diogelu a Galluogi Plant Agored i Niwed cyn Mehefin 2025) yn ceisio adfer urddas plant a phobl ifanc sydd mewn sefyllfaoedd bregus gan eu galluogi i ddod yn hunan-ddibynnol a rheoli eu dyfodol eu hunain. Rydym yn gweithio i ddarparu y lloches, y dillad, bwyd, gofal iechyd addysg, dŵr ac adnoddau hylendid y maen nhw eu hangen ac yn eu haeddu.





Diolch i gefnogaeth hael unigolion, ymddiriedolaethau a sefydliadau, rydym eleni wedi darparu'r holl bethau hyn i 556 o blant a phobl ifanc agored i niwed mewn chwe chanolfan blant.

Rydym wedi sicrhau bod:

- 10% o'r plant yn cael addysg cyn-ysgol
- 39% yn parhau mewn addysg gynradd, tra bod 16% wedi mynd ymlaen i ysgolion uwchradd, 6% i golegau a 2% i brifysgolion – llwyddiannau a fyddai unwaith y tu hwnt i'w cyrraedd
- 27% o'r bobl ifanc mewn hyfforddiant arbenigol a galwedigaethol

Rydym wedi sefydlu canolfan newydd i fentora, cefnogi a hyfforddi, gan gynnwys stafelloedd dosbarth, llyfrgell, swyddfeydd a stafell gyfrifiaduron.

Mae ein partneriaid yng nghanolfan Akany Avoko Ambohidratrimo wedi agor bar byrbrydau sy'n cynhyrchu incwm ac yn cryfhau ei hannibyniaeth ariannol. Maen nhw hefyd wedi gosod sianeli draenio.

Mae canolfan Akany Avoko Faravohitra wedi adnewyddu ei llyfrgell ac Akany Avoko Bevalala, a fu'n wynebu prinder mawr o ddŵr yfed, bellach yn elwa o dwll turio a system bibellau sy'n sicrhau cyflenwad dŵr diogel, cynaliadwy

Lawnsiodd Akany Avoko Faravohitra a Belavalala system teuluoedd maeth, can gynnwys hyfforddi, adnabod plant, dilysu teuluoedd, cysoni cyfreithiol a monitro a gwerthuso parhaus. Cafodd saith plentyn eu gosod gyda theuluoedd maeth; mae asesiadau ar droed gyda 17 arall.

Trwy barhau i adeiladu ar y cynnydd hwn, rydym yn creu dyfodol gyda'n gilydd, lle gall pob plentyn ffynnu.

# Addysg am Oes

Mae gan bob plentyn hawl i addysg. Ym Madagascar, mae llawer gormod yn methu â mynd i'r ysgol, neu wneud y gorau o hynny pan fyddan nhw. Mae Addysg am Oes yn gweithio gydag NGOs lleol i roi addysg safonol, iechyd, maeth a lles yng nghyrraedd plant.

Yn 2023-24, fe weithion ni gydag 20 ysgol Malagasi a:

- Hyfforddi 159 athro (Rhwnt 93 a 100% ym mhob ysgol)
- Sefydlu canolfannau adnoddau gyda 2,000+ o lyfrau, posteri a gemau addysgol i gefnogi dysgu
- Cyrraedd mwy na 5,564 disgybl ac ysgol gyda thebledi a chynnwys, gan wella darllen a geirfa
- Gwella isadeiledd a gosod paneli haul a systemau cefnogi yn yr 20 ysgol
- Helpu mwy na 70% o blant i basio tystysgrif gynradd genedlaethol Madagscar: mewn rhai ysgolion, pasiodd pob plentyn eleni
- Sefydlu 19 cantîn ysgol, yn darparu prydau iach, maethlon i fwy na 6,000 o ddisgyblion, athrawon a rhieni bob dydd, gan wella iechyd trwy faeth
- Hyfforddi bron 7,000 o bobl mewn dŵr, carthffosiaeth a hylendid a rhannu bron 5,500 o becynnau hylendid
- Gosod adnoddau dŵr yfed i leihau'r peryg o gael dŵr heintiedig
- Cynnal ymgyrchoedd Nôl i'r Ysgol, gan helpu i leihau lefelau rhoi'r gorau iddi ymhlith plant agored i niwed i 2-4%.
- Helpu 200 rhiant i ddysgu darllen a sgrifennu, gan wella inwcm a'r gallu i gael bwyd, gwella iechyd a gallu plant i ganolbwyntio a chyfranogiad teuluoedd mewn addysg





# Solar United Madagascar (SUM)

Rydym yn partneru gyda phedwar corff yn Solar United Madagascar. Gyda chyllid sbarduno gan Sefydliad Aeonian, rydym yn darparu pŵer solar all-grid i gymunedau Malagasi, gan mai dim ond traean o gartrefi sydd wedi'u cysylltu â'r grid.

Erbyn Hydref 2024, cyrhaeddodd SUM bron 1,500 o bobl gyda:

- 66 Llyfrgell Golau, yn galluogi pobl ifanc i ddarllen a studio gartref
- Cyfrifiaduron, tabledi a thaflunwyr grym-solar, yn rhoi dysgu digidol i ddwy ysgol, hyd yn hyn

# Coedwigoedd a Bywoliaethau Gwydn

Mae Coedwigoedd a Bywoliaethau Gwydn yn ymateb i argyfwng amgylcheddol a dynol parhaus a chynyddol Madagascar. Rydym yn darparu datblygu cynaliadwy a gwarchodaeth ecolegol mewn ardaloedd dan fygythiad trwy gynyddu gwytnwch amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol cymunedau gwledig bregus.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Galluogi sefydlu 151 o Grwpiau Cynilo a Benthyg Cymunedol (CBSLGau), gan ddarparu a chronni cyllid i aelodau cymunedau, fel y gallan nhw fuddsoddi i wella incwm a ffordd o fyw. Mae gyda ni bellach 175 CBSLG, gyda 5,317 aelod a 55% yn fenywod. Ym mhob cyfnod, cafodd pob un gynnydd cyfartalog o 46% o'u buddsdoddiad
- Dod ag Agrogoedwigaeth Ddeinamig i fwy na 30 hectar o randiroedd teuluol (cyfanswm - 54Ha), gan alluogi gwell cynhyrchu bwyd ac adfer a gwarchod coedwigoedd dan fygythiad





- Hyfforddi a chefnogi 233 tylwyth mewn amaethyddiaeth amgylcheddol-ddoeth (cyfanswm o 698 tylwyth ers 2022), gan adfer 68 hectar o dir gwael. Plannwyd 134,213 o blanhigion brodorol (105,455 eleni) i adfer 45Ha (25 eleni) o goedwig naturiol a chynnal 118Ha
- Helpu 206 tylwyth i gymryd rhan mewn meithrinfeydd pentref aml-bwrpas, yn tyfu coed ffrwythau er mwyn adferiad ecolegol, ailgoedwigo, ffrwythau, ynni a defnydd arall, gan alluogi datblygu a chadwraeth.
- Helpu dwy ysgol i dyfu llysiau a chynnal cantins i roi maeth dyddiol i 151 disgybl i gefnogi dysgu. Cafodd rhieni a staff hyfforddiant ychwanegol.
- Galluogi 245 o bobl ifanc (42% yn fenywod) yn Andasibe gyda hyfforddiant yn y prosiect Ieuenctid tros Lemwriaid, gan gynnwys 649 tylwyth mewn cynhyrchu planhigion aromatig a meddyginaethol i ddiogelu coedwigoedd ac ecosystemau lleol

Rydym yn parhau i weithio i alluogi cymunedau Malagasi – yn enwedig menywod Malagasi – i godi eu hunain o dlodi, gwella hygyrchedd bwyd, a gwarchod ac ehangu'r amgylchedd Malagasi allweddol y maen nhw'n rhan ohono.